# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Mawrth 2024

Amser: 09.15-12:30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

# Hybrid - Papur i'w nodi: Ymateb Llywodraeth Cymru ynghylch Penodiadau Cyhoeddus

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**2.4 Llythyr gan Lywodraeth Cymru: ymateb i lythyr y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus dyddiedig 26 Chwefror 2024 ynghylch casglu data ar benodiadau cyhoeddus ac yn benodol ddata ar gyfeiriadau ymgeiswyr a phenodeion a'u gallu yn Gymraeg.**

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-05-34-PTN4-Llywodraeth Cymru-Penodiadau Cyhoeddus

Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu
Chief Operating Officer's Group (COOG)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ein Cyf/Our Ref: 240312/PBU/TM

15 Mawrth 2024

Annwyl Mr Isherwood

**Penodiadau Cyhoeddus**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Chwefror 2024 ynghylch casglu data am benodiadau cyhoeddus ac, yn benodol, data am gyfeiriadau ymgeiswyr a phenodeion ac am eu gallu yn y Gymraeg.

Y cyfnod peilot y cyfeiriais ato yn fy llythyr dyddiedig 29 Ionawr yw'r gwaith gan Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys cysylltu â chyrff cyhoeddus a gofyn am wybodaeth ynghylch amrywiaeth o ran cyfansoddiad eu byrddau. Nid oedd y gwaith hwn yn gofyn am wybodaeth am sgiliau Cymraeg na lleoliad ac ni fydd hynny'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwnnw.

Fodd bynnag, gallaf gadarnhau ein bod yn casglu cyfeiriadau ymgeiswyr a gwybodaeth am eu sgiliau Cymraeg fel rhan o'r broses benodi, ond nad ydym yn coladu nac yn dadansoddi'r wybodaeth honno ar hyn o bryd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi newid ein system recriwtio ac, wrth roi'r system newydd ar waith, rydym wedi bod yn canolbwyntio i ddechrau ar sicrhau y gallwn fodloni'r gofynion adrodd sy'n ofynnol gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn ei archwiliad blynyddol. Nid yw'r Comisiynydd yn gofyn am wybodaeth am fan preswyl na gwybodaeth am sgiliau Cymraeg y rhai a benodir, ac felly nid ydym wedi dadansoddi'r wybodaeth honno hyd yn hyn. Fodd bynnag, rydym yn datblygu ein gallu, a'n bwriad yw dadansoddi'r data sy'n ymwneud â'r Gymraeg a man preswyl ar ôl inni gael blwyddyn lawn o dan y system newydd. Byddaf yn rhoi copi o'r dadansoddiad hwnnw i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus pan fydd wedi'i gwblhau. Mae'r ymrwymiad llawn yn y strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru hefyd yn cynnwys data ar grwpiau economaidd-gymdeithasol. Mae ein system newydd yn casglu'r data hwn ac felly byddwn yn gallu adrodd ar hyn yn y dyfodol.

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*


Ffôn • Tel XXXXXXX
@llyw.cymru
Gwefan • website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Rwy'n gobeithio y bydd hyn o gymorth i'r Pwyllgor wrth ystyried ei Ymchwiliad i Benodiadau Cyhoeddus.

Yr eiddoch yn gywir,



**Tim Moss**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu,**
**Llywodraeth Cymru**